Amgueddfa yn Aberystwyth yn dangos offer ffermio o'r gorffennol iddynt. Diddorol iawn oedd gweld y fath amrywiaeth a'r cyfan bron yn rhan o hanes erbyn hyn.

Aeth nifer o'r plant i gystadlu yng Ngala nofio'r Urdd ym mhwll nofio Plascrug gan wneud gwaith canmoladwy. Bu'r merched yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd hefyd gan wneud ymdrech arbennig.

Ail gychwynwyd gweithgareddau Adran yr Urdd ddechrau Tachwedd gyda disgo a chystadleuaeth yr het orau ar gyfer Noson Calan Gaeaf. Cafwyd amrywiaeth o hetiau ac yr oedd yn amlwg bod llawer o ddychymyg y tu ôl i nifer ohonynt. Cafwyd cwmni Mr Eddie Jones yn ein hail gyfarfod a buom wrthi'n dawnsio gwerin. Mr Hywel Harries fu'n ein diddori ar 4 Rhagfyr a'i ddawn anhygoel i greu darlun yn ddiffwdan a slic yn ryfeddod i nifer ohonom.

Yn ystod y mis cafwyd cyfle i groesawu y "Diversion Dance Company" i'n plith. Aeth plant dosbarth 4 ynghyd â phlant hŷn Ysgol Trefeurig i neuadd y Penrhyn un bore a threulio cyfnod diddorol o hyfforddiant gan aelodau'n cwmni. Daeth y "Scottish and Northern Drama Company" i'r ysgol hefyd a chafwyd perfformiad graenus ganddynt y tro hwn eto.